**ADRODDIAD I'R CABINET**
22 Tachwedd 2016

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd

**Pwnc:** Etholaethau Seneddol

**Swyddog cyswllt:** Dilwyn Williams, Prif Weithredwr

---

**Y penderfyniad a geisir :**

a) Derbyn cynigion y Comisiwn ar gyfer etholaeth seneddol Ynys Môn ac Arfon;
b) Anghytuno gyda chynigion y Comisiwn ar gyfer etholaeth De Clwyd a Gwynedd gan gyflwyno cynigion eraill fyddai'n cadw ffiniau'r sir yn gyflawn ond gan hefyd gynnwys ardaloedd tebyg o ran diwylliant ac ieithwedd i gael y niferoedd angenrheidiol yn yr etholaeth fel y nodir yn yr adroddiad;
c) Pwyso ar y Comisiwn i arddel enwau Cymraeg yn unig ar gyfer etholaethau yng Nghymru;
ch) Gwneud awgrymiadau ar gyfer enwau priodol i'r etholaethau yng Ngwynedd.

---

**Cyflwyniad**

*1.* Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer newid etholaethau seneddol yng Nghymru. Mae'r adroddiad llawn i'w gweld yn www.comffin-cymru.gov.uk

2. Gofynnir i unrhyw un sy'n dymuno gwneud hynny gyflwyno sylwadau erbyn 5 Rhagfyr.

3. Mae'r Comisiwn yn awgrymu sefydlu 29 o etholaethau seneddol yng Nghymru i gymryd lle'r 40 presennol.

4. Dau reswm sy'n gyfrifol am y gostyngiad, sef y bwriad i leihau'r nifer etholaethau o 650 i 600 ar draws Prydain, a'r ddarpariaeth o fewn Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau 2011 sydd, yn rhoi gofyn statudol i bob un etholaeth gael rhwng 71,031 a 78,507 o etholwyr ynddo.

5. Mae’r gofyn olaf yma yn arwain at orfod creu ffiniau annaturiol, ond mae’r ddogfen gynigion yn gwneud yn glir na ellir tramgwyddo’r niferoedd statudol y mae gofyn i bob etholaeth ei gynnwys, ac felly byddai’n rhaid i unrhyw sylw ar y cynigion gynnwys cynigion amgen fyddai’n arwain at gadw at y rheol niferoedd yma.

6. Yn amodol ar gadw at y rheol niferoedd yma, mae’r Comisiwn hefyd yn gallu talu sylw i’r canlynol –

    - Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth;
    - Ffiniau Llywodraeth leol
    - Ffiniau etholaethau presennol; ac
    - Unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai’n cael eu torri drwy newid etholaethau

7. Ar hyn o bryd, mae Gwynedd yn cael ei rhannu’n ddwy etholaeth seneddol, sef Arfon (sydd a 37,739 o etholwyr ynddi) a Dwyfor Meirionnydd (sydd a 42,353 o etholwyr ynddi). Fe welir felly mai dim ond o tua 1,500 o etholwyr y mae Gwynedd gyfan yn fwy na’r hicyn uchaf ar gyfer etholaeth seneddol.

8. Fodd bynnag gan mai dim ond 49,287 o etholwyr sydd yn etholaeth bresennol Ynys Môn, a chan mai Gwynedd yw’r unig sir sydd yn ymylu arni, mae’n anorfod y bydd yn rhaid i ran o etholaeth Arfon gael ei chynnwys gydag Ynys Môn i greu etholaeth o leiaf 71,031.

**Cynigion y Comisiwn sy’n berthnasol i Wynedd**

9. Mae’r Comisiwn yn awgrymu creu un etholaeth Ynys Mon ac Arfon (77,425 o etholwyr) fyddai’n cynnwys holl wardiau etholiadol Arfon heblaw’r Bontnewydd, Groeslon, Llanberis, Llanllyfni, Llanwnda, Penygroes, Talysarn a Waunfawr.

10. Maent wedyn yn awgrymu creu etholaeth Gogledd Clwyd a Gwynedd fyddai’n cynnwys;-

    - Gweddill wardiau etholiadol Arfon a nodir uchod;
    - Wardiau etholiadol sydd ar hyn o bryd yn Etholaeth Seneddol Dwyfor a Meirionnydd (**heblaw** Llandderfel, Llanuwchllyn, a’r Bala);
    - Wardiau etholiadol Betws y Coed, Caerhun, Crwst, Eglwysbach, Gower , Trefriw, Uwch Conwy, Betws yn Rhos, Llangernyw a Llansannan o sir Conwy;
    - Wardiau etholiadol Bodelwyddan, canol Dinbych, Dinbych Isaf, Dinbych Uchaf / Henllan, Dwyrain Llanelwy, Gorllewin Llanelwy, Trefnant a Thremeirchion o Sir Ddinbych. Byddai yna 76,147 o etholwyr yn yr etholaeth yma.

11. Mae wardiau etholiadol Llandderfel, Llanuwchllyn a'r Bala yn cael eu cynnwys mewn Etholaeth Seneddol De Clwyd a Gogledd Maldwyn, sydd hefyd yn cynnwys y canlynol;-

   - Wardiau etholiadol Corwen, Llandrillo a Llangollen sydd yn Sir Ddinbych ac yn rhan o etholaeth seneddol De Clwyd ar hyn o bryd;
   - Nifer o wardiau etholiadol gorllewinol Sir Wrecsam sydd hefyd yn rhan o etholaeth seneddol De Clwyd ar hyn o bryd;
   - Ward Uwchaled Sir Conwy sydd yn rhan o etholaeth seneddol Gorllewin Clwyd;
   - Nifer o wardiau etholiadol o Ruthun i lawr i'r de sydd ar hyn o bryd hefyd yn rhan o etholaeth seneddol Gorllewin Clwyd;
   - Ward etholiadol Llandyrnog (sy'n rhan o etholaeth seneddol Dyffryn Clwyd ar hyn o bryd); a
   - Nifer o wardiau etholiadol gogleddol etholaeth seneddol Trefaldwyn

12. Nodir ffiniau'r etholaethau seneddol arfaethedig ar fapiau yn yr atodiadau.

13. Byddai gan Wynedd felly dri Aelod Seneddol yn cynrychioli rhan ohono – un ar y cyd gydag Ynys Mon; un arall yn cynrychioli ardal yn ymestyn o Dywyn lawr y de, Aberdaron i'r Gorllewin a draw at Dremeirchion yn y Dwyrain. Byddai trydydd yn cynrychioli tair ward etholiadol yn ardal Penllyn fel rhan o ardal eang yn y dwyrain.

14. Mae gan y Cyngor diddordeb wrth gwrs mewn sicrhau cynrychiolaeth briodol ar gyfer yr ardal; a bod y trefniadau hynny yn gwneud synnwyr.

**Ymateb y Cyngor**

15. Rhaid derbyn wrth gwrs fod yn rhaid i unrhyw etholaeth a gynigir fod ag isafswm o 71,031 o etholwyr.
16. Gan fod yn rhaid i elfen o Wynedd fod yn yr un etholaeth ag Ynys Mon (gan mai ni yw'r unig sir sydd ymylu ar yr ynys), mae'n debyg fod y cynnig hwnnw yn un y bydd yn rhaid i ni ei dderbyn, gan nad oes yna ddewisiadau eraill.

17. Fodd bynnag, mae'r etholaeth Gogledd Clwyd a Gwynedd i weld yn anhylaw ac yn codi cwestiwn i ba raddau y byddai modd i Aelod Seneddol gynrychioli'r ardal yn effeithiol.

18. Mae o hefyd yn mynd ar draws tair sir (a byddai angen i unrhyw Aelod seneddol fod yn fyw felly i'r hyn sy'n digwydd yn y tair sir). Mae o hefyd i weld yn tramgwyddo nifer o'r ystyriaethau yng nghymal 6 uchod.

19. Mae tynnu ardal Penllyn allan o Wynedd (fyddai'n golygu Aelod Seneddol arall yn cynrychioli rhan fechan o'r sir) hefyd i weld yn mynd yn groes i'r ystyriaethau a nodir yng nghymal 6 uchod.

20. Mae yna opsiwn gwell yn fy marn i ar gyfer ail etholaeth yng Ngwynedd a hynny yw cadw'r ffiniau sirol presennol gan ychwanegu ardaloedd Aberconwy sydd i'r gorllewin o'r Afon Conwy atynt.

21. Byddai hyn yn adeiladu i raddau a'r ffiniau hanesyddol ac yn adlewyrchu diwylliant ac ieithwedd yr ardaloedd hyn.

22. Byddai hyn yn wahanol i gynigion y Comisiwn drwy beidio ag ychwanegu unrhyw ran o ardal Sir Ddinbych neu unrhyw ran o etholaeth seneddol Gorllewin Clwyd at yr etholaeth arfaethedig; ond gan gynnwys wardiau etholiadol Bryn, Pandy, Pant yr Afon /Penmaenan, Capel Ulo, a Chonwy at yr ardaloedd o Aberconwy yr oedd y Comisiwn yn argymell yn wreiddiol. Byddai hyn yn gwneud etholaeth seneddol o 69,719 sydd wrth gwrs rhy isel.

23. Fodd bynnag, oherwydd eu natur wledig efallai fod yna ddadl dros gadw ward etholiadol Llangernyw yn yr etholaeth seneddol fel yr awgrymwyd yn wreiddiol ac ychwanegu Uwchaled o sir Aberconwy (etholaeth seneddol Gorllewin Clwyd) fyddai'n dod a'r cyfanswm at 71,190 sydd o fewn canllawiau'r Comisiwn.

24. Mae'r ffigwr yma ar waelod yr amrediad wrth gwrs ond yn amlwg, byddai rhywun yn ystyried mai ardaloedd gwledig ddylai fod ar waelod yr amrediad oherwydd y gwaith o gynrychioli trigolion gwasgaredig.

25. Wrth gwrs, byddai yna effaith wedyn ar rai o gynigion eraill y Comisiwn ac er na ddylai sgil effeithiau hyn ar etholaethau eraill fod yn fater i ni, os am gynnig y cynllun yma fel un sy'n fwy derbyniol yn lleol, mae angen i ni sicrhau fod yna ddewisiadau ymarferol ar gyfer yr etholaethau eraill fyddai'n caniatáu i'r Comisiwn ystyried y cynnig yma o ddifrif.

26. Yn gyntaf oll byddwn wedi tynnu 9,307 o etholwyr o'r etholaeth seneddol arfaethedig ar gyfer Colwyn a Chonwy.

27. Byddai modd digolledu hyn drwy ychwanegu ardaloedd Betws yn Rhos, Bodelwyddan, Llanelwy, Trefnant a Thremeirchion fyddai wedi eu tynnu allan o'r cynigion ar gyfer Gwynedd ac yn rhoi 8,658 o etholwyr yn ôl fyddai'n cadw'r etholaeth yma o fewn ffiniau'r Comisiwn. Byddwn yn dadlau fod gan y cymunedau yma fwy yn gyffredin gyda chymunedau'r arfordir na sydd ganddynt gyda chymunedau Gwynedd.

28. Byddai cynnwys ardal Dinbych a Llansannan at Landyrnog a Rhuthun (sydd eisoes yn y cynigion ar gyfer Etholaeth De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn) wedyn yn cynyddu'r etholaeth honno o 4,806 (ar ôl ystyried y ffaith y byddem wedi tynnu allan ardal Penllyn ac Uwchaled). Byddai hyn yn parhau i gadw'r etholaeth yma o fewn y canllawiau rhifyddeg.

29. **Argymhellir** felly fod y Cyngor yn cyflwyno cynigion i'r Comisiwn yn argymell y newidiadau a nodir ar gyfer Gogledd Clwyd a Gwynedd, gan nodi'r newidiadau posibl i ymdrin â'r sgil effaith (er y byddem yn cydnabod fod yna atebion eraill efallai sy'n fwy perthnasol i'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd hynny).

30. Mae'r Comisiwn hefyd yn gofyn am sylwadau ar enwau'r etholaethau ac yn nodi mai polisi'r Comisiwn ar gyfer etholaeth newydd yw y dylai'r enw adlewyrchu'r Cyngor neu gynghorau sydd bennaf yn yr etholaeth. Fodd bynnag os oes yna enw sydd yn derbyn mwy o gefnogaeth leol , byddant yn fodlon ystyried y cynnig hwnnw.

31. O ran iaith, maent yn nodi eu bod yn ei ystyried yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru gael enw arall yn y Gymraeg neu'r Saesneg er mwyn trin y ddwy iaith yn gyfartal. Lle mae enw etholaeth yn ddwyieithog ni fyddai yna enw arall. Yr enghraifft a roddir yw Blaenau Gwent.

32. Ar gyfer y rhai sy'n ymwneud a Gwynedd yr enwau a gynigir yw Ynys Mon ac Arfon (Isle of Anglesey and Arfon) a Gogledd Clwyd a Gwynedd (North Clwyd and Gwynedd). Yn wyneb y ffaith ein bod bellach yn awgrymu diddymu'r elfen o Ddinbych sydd yn yr etholaeth, nid yw De Clwyd yn berthnasol (er bod angen gofyn pam arddel y term Clwyd o gwbl o ystyried yr hyn a nodir yng nghymal 30 uchod - gan nad yw Clwyd bellach yn enw ar brif gyngor fwy nag yw Arfon mae'n debyg).

33. Fodd bynnag rhaid ystyried ei fod yn cynnwys rhan helaeth o Aberconwy Wledig. Un awgrym fyddai cynnig yr hen enw hanesyddol Gwynedd Uwch Conwy ?

34. Mae'n bur annhebygol y byddant yn derbyn hyn ac felly fel ail ddewis un awgrym fyddai Gwynedd ac Aberconwy Wledig.

35. Pwynt ehangach yw yn wyneb y cyfeiriad presennol yng Nghymru i gryfhau'r Gymraeg yw y dylid pwyso ar y Comisiwn i arddel enwau priodol Cymraeg yn unig ar gyfer yr etholaethau. Gan mai enwau priodol ydynt a oes angen cyfieithiad Saesneg?

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Awdur

***Y Swyddog Monitro:***
*Wrth ymateb i'r ymgynghoriad yma mae gofyn i'r Cabinet ystyried y mater o safbwynt swyddogaeth y Cyngor fel awdurdod cyhoeddus a'i asesiad o effaith posib y cynigion a'r ddarparu ein swyddogaethau o fewn y sir. Ar y llaw arall mae'r fframwaith statudol sydd yn sail i'r adolygiad yn eithaf cyfyng ac yn anorfod felly yn golygu fod oblygiadau traws ffiniol i unrhyw awgrymiadau amgen. Fodd bynnag ymateb i gynigion cychwynnol sydd yma ac mae prosesau ateb ac ymgynghorol cyhoeddus pellach i ddilyn cyn y cyhoeddir cynigion terfynol.*

**Y Pennaeth Cyllid:** *Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb ariannol*

---

**Atodiadau:**

Mapiau o'r cynigion gwreiddiol gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru

**Dogfennau cefndir:**

Adroddiad Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru : Cynigion Cychwynnol